**Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR orchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

Nid yw'r Pwyllgor Deddfau wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog 11.5 y mae angen eu tynnu yn arbennig at sylw'r Cynulliad.

**Sylwadau**

Cyflwynodd y Pwyllgor y sylwadau a ganlyn:

**Nodyn esboniadol**

Deellir bod camsillafiad "yngln" yn y paragraff cyntaf wedi'i nodi gan y rhai sy'n gyfrifol am y drafftio ac y caiff ei gywiro ar y copi argraffedig.

Amheuwyd a ddylai paragraff c. o'r Nodyn Esboniadol gyfeirio at adrannau 14-17 yn hytrach na 14-16.

**Dyddiad ei wneud**

Gan fod y Gorchymyn hwn wedi'i wneud o dan y weithdrefn frys, dylai dyddiad ei wneud fod wedi'i fewnosod ar y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

**Troednodiadau**

Defnyddio "p." (hy pennod) yw'r arfer sefydlog ar gyfer y testun Cymraeg wrth gyfeirio at rifau penodau Deddfau Seneddol. Dylid cywiro hyn ar y copi argraffedig.

**Croniclo pwerau**

Dylai adran 66(4) a (5)(c) fod wedi'i chynnwys, neu dylid bod wedi cyfeirio ati mewn troednodyn, i ddangos sut mae swyddogaeth adran 63(1) yn arferadwy gan y Cynulliad.

**Erthygl 1(2)**

Mae angen i'r cyfeiriadau ar gyfer troednodiadau (b) ac (c) fod mewn print tywyll yn y testun.

**Llofnod**

Dylid mewnosod troednodyn i roi rhif y bennod yn Neddf Llywodraeth Cymru.

Dylai dyddiad ei wneud a chadarnhad o’r llofnod fod wedi’u mewnosod ar y copi o’r Gorchymyn fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor.

**Atodlen 1**

Yn y cofnod ar gyfer paragraff 4 o Atodlen 4, dylid rhoi "paragraff" yn lle "paragraffau".

**CEFNDIR Y GORCHYMYN**

Mae Deddf Iechyd 1999 yn cynnwys darpariaeth sydd i raddau helaeth ar ffurf diwygiadau testunol i ddeddfwriaeth bresennol yr NHS.

Gan ei bod wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ar 30 Mehefin eleni, mae’n cynnwys darpariaeth bendant i swyddogaethau sy’n swyddogaethau Ysgrifenyddion Gwladol yn Lloegr fod yn swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru.

Felly, mae'r per i gychwyn, sy’n arferadwy o dan adran 67 (hy y per i ddwyn darpariaethau’r Ddeddf i rym drwy orchymyn cychwyn), yn arferadwy, yn rhinwedd adran 66(2), gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â chychwyn darpariaethau penodol.

Mae’r Gorchymyn presennol wedi’i wneud felly yn unol â’r per hwn. Mae’n darparu ar gyfer cychwyn darpariaethau amrywiol y Ddeddf, rhai ohonynt ar

1 Tachwedd 1999 ac eraill ar 1 Rhagfyr 1999. Mae natur y darpariaethau sydd wedi’u cychwyn wedi’i nodi yn y Nodyn Esboniadol i’r Gorchymyn.

**M GERMAN**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

9 Tachwedd 1999